



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB

Maer: Cyng Chris Jones

Dirprwy Faer: Cyng Laura Fielding

**AGENDA CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER,
EBRILL Y 26^{ain} 2023**

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Datgelu diddordeb personol, neu ragfarnol)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.
5. Derbyn cofnodion o gyfarfod y Cyngor Tref ar Fai'r 5^{ed} a'r rhestr weithredu gyfredol
6. Trafod a chymeradwyo peintio'r lloches ger y bont troed a gosod gorsaf glanhau'r traeth
7. Derbyn gwybodaeth gan CBSC ynghylch Neuadd Pendalar – Cyng Penny Andow
8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynllunio ar gyfer Swydd Wag Ward Lafan
9. Derbyn gwybodaeth am y gweithgareddau Coroni yn Llanfairfechan a phrosiect ffenestri Coronau'r Cyngor Tref
10. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo crynodebau gweithredol o wahanol gyfarfodydd
11. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer prynu mainc
12. Trafod Cynllun Cymunedol Kickstarter a dosbarthu'r cynllun
13. Trafod a chymeradwyo cofnodion Ebrill y 5^{ed} 2023 a'r rhestr weithredu gyfredol (DLIL1972 Atodlen 12)
14. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Ebrill 2023
(Wedi'i ddiwygio yn dilyn y cyfarfod)

Ymuno â'r Cyfarfod Zoom

<https://us02web.zoom.us/j/88497410378?pwd=WIBXalFMaHZuMFBUTWdxZzZlQ3FqZz09>

**Cyfeirnod y Cyfarfod: 884 9741 0378
Cyfrinair: 751841**

Taliadau i'w cyflwyno
1. Kirsty Merrell Daily Trwydded TENS Mai £21.00
2. CBS Conwy Ffi Flynyddol ar gyfer archwilio'r Meysydd Chwarae £541.18
3. British Gas Trydan y Maes Chwarae Aml-ddefnydd £23.28
4. View Creative Agency Bwrdd Panorama £2256.00
5. CBS Conwy Sgipiau Cymunedol £480.00
6. CBS Conwy Sgipiau Cymunedol anfoneb wedi'i diwygio £528.00

15. Trafod materion cynllunio

Dim wedi'u derbyn

16. Derbyn gohebiaeth

17. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

18. Derbyn sylwadau a phryderon brys

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref Llanfairfechan Nos Fercher, Ebrill y 26^{ain} 2023

Yn Bresennol: Cadeirydd: Maer Chris Jones; Dirprwy Faer Laura Fielding; Cyng Penny Andow ar ZOOM; Cyng Leena Farhat; Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Gareth Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Elgan Owen; Cyng Christine Roberts; Cyng Preben Vangberg.

Clerc y Dref Jayne Neal

1. Croesawodd y Cadeirydd, Maer Chris Jones pawb i'r cyfarfod
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)
Cyng Nia Jones
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Datgelu diddordeb personol, neu ragfarnol)
Cyng Elgan Owen – Neuadd Pendalar. Gwybodaeth yn unig, dim diddordeb rhagfarnol
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.

Roedd dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol – un i arsylwi'r Cyngor Tref ar waith a Chadeirydd Pwyllgor Neuadd Pendalar, Haf Jones. Symudwyd Eitem 7 ar yr agenda i'w drafod yn gynharach.

7. Derbyn gwybodaeth CBSC ynghylch Neuadd Pendalar – Cyng Penny Andow

Soniodd y Cyngorydd Sir bod CBS Conwy yn bwrw golwg ar yr holl adeiladau gwag ym mhob cymuned. Mae'r Cyngorydd Sir eisoes wedi mynd ati i wirio Neuadd Pendalar ar y cyd â thirfesurydd. Mynegwyd pryder ynghylch dichonoldeb y neuadd fel canolfan gymunedol pan fo nifer o ganolfannau ar gael eisoes. Rydym yn ymwybodol bod angen mawr am dai yng Nghonwy. Soniodd Ysgrifennydd pwyllgor Neuadd Pendalar, Cyng Elgan Owen, bod pwyllgor gweithredol ac mae cais wedi'i gyflwyno i'r comisiwn elusennau. Ni ellir parhau gyda'r gwaith nes caiff hyn ei gymeradwyo ond mae'r pwyllgor yn gobeithio cadw'r ganolfan ar gyfer cymuned Pendalar. Fodd bynnag, maen nhw'n realistig ynghylch a fyddai hyn yn digwydd ai pheidio. Mae'n heriol ac yn dibynnu ar gefnogaeth y gymuned. Bu i'r Cyngorydd Sir sicrhau y byddan nhw'n argymhell cadw'r Maes Chwarae Aml-ddefnydd, seddi cymunedol a'r man gwyrdd. Mae grwpiau cymunedol wedi bwrw golwg ar y neuadd ond bu'r costau cynnal yn peri pryder. Y prif bryder ydy y byddai'r neuadd yn mynd yn adfail ac mae'n bosibl y byddan nhw'n colli'r safle, felly fe soniwyd y byddai tai cymdeithasol yn ddewis arall hyfyw. Mae 120 o deuluoedd yn ddigartref, ac mae'r ffigwr hwn yn cynyddu'n wythnosol – mae'r sefyllfa'n dorcalonnus. Mae Yr Heath yn wag ac nid yw'n adeilad rhestredig – dengys archwiliadau adeiladau nad yw'n bodloni'r rheoliadau cyfredol, felly caiff dyfodol y safle ei ddwyn i ystyriaeth. Soniwyd bod y Cyngor Tref wedi pryderu nad oedd Neuadd Pendalar yn hyfyw fel gofod cymunedol ers tro. Pan gynhaliodd CVSC sesiwn Addas ar gyfer Cyllido, fe wnaethon nhw sôn hefyd fod gormod o ganolfannau cymunedol yn y pentref ar gyfer y boblogaeth o 3600. Dywedodd CBS Conwy fod angen cael gwared ar y cyfarpar cyn gynted â phosibl er mwyn bodloni telerau'r yswiriant eiddo gwag. Mae standin wedi'i drefnu ar gyfer y Farchnad Bwyd a Chrefftau nesaf i ofyn am farnau ynghylch y neuadd a cheisio denu aelodau newydd. Soniodd Cadeirydd pwyllgor Neuadd Pendalar, os bydd datblygiad tai yn yr ardal, gallai fod yn bosibl hawlio cyllid cymunedol yn gyfnewid am hynny er mwyn darparu datblygiad hwb ar gyfer Pendalar. Gellir ymchwilio i hyn. Clerc i gysylltu gyda Chyngor Conwy am allwedd unwaith y bydd y gymuned wedi pennu dyddiad i glirio'r neuadd. Caiff yr eitemau eu symud i Neuadd Gymunedol Llanfairfechan nes caiff penderfyniad ei wneud ynghylch dyfodol Neuadd Pendalar.

Penderfynwyd derbyn a nodi

5. Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref ar ddydd Mercher, Ebrill y 5^{ed} a'r rhestr weithredu gyfredol. Doedd dim rhestr weithredu ar gael. Dosbarthwyd y cofnodion dros e-bost ac fe nodwyd wedi'u darllen.

Eitem 7 – newid i aelod staff CVSC Elgan Owen gan fod modd iddo weithredu fel ysgrifennydd ar ran y pwyllgor

Eitem 7 – mae'r newid i'r pwyllgor ar y gweill ar hyn o bryd

Eitem 5 12.5 Cyngorydd wedi anfon e-bost at y Cyngorydd Sir, Jacob Williams ac mae wedi derbyn e-bost awtomatig ond ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth bellach hyd yn hyn.

Eitem 17.2 dim mwy o wybodaeth ynghylch yr ymholiad am yr arhosfan fws. Clerc i fynd ar drywydd y mater.

Eitem 11 Wedi holi'r cyflenwyr ond does dim llawer iawn o ddiddordeb mewn marchnad promenâd ar gyfer y Ras o Amgylch Ynys Seiriol oherwydd yr adeg o'r flwyddyn. Clerc i hysbysu'r clwb hwylio o hyn, er na wnaed cais ffurfiol gan y pwyllgor. Prosiect celfyddydau Llais y Lle wedi'i lansio erbyn hyn ac mae'n cynnig cyfleoedd i gymryd

rhan mewn sesiynau celf / treftadaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ond gan gynnwys pob lefel iaith hefyd. Mae'r prosiect ar waith rhwng Llanfairfechan a Phenmaenmawr felly byddai'n fuddiol trefnu sesiynau ar y cyd, gan fanteisio ar y ffermydd a'r teithiau mynydd o bosibl rhwng y pentrefi a chynnwys y partneriaethau Carneddau.

Eitem 18.1 Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Eglurwyd y byddai'r ysgolion yn cael eu graddio ar sail data ac ystadegau Llywodraeth Cymru ar gyfer eu safle a byddai hyn yn pennu a fydd yr ysgolion newydd yn cael eu hadeiladu. Fodd bynnag, fel ymateb i gais gan y Pennaeth, mae'r cynrychiolydd o'r Cyngor Tref wedi anfon adborth gan y Cyngor Tref yn ogystal ac mae'r Pennaeth wedi cyflwyno datganiad ategol.

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng L Farhat Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

6. Trafod a chymeradwyo peintio'r lloches ger pont droed y promenâd a gosod gorsaf glanhau'r traeth Mae'r Dirprwy Faer yn cymryd yr awenau dros brosiect i beintio'r lloches ger y bont droed dros dro gan fod y blychau poster newydd yn amlygu pa mor flêr ydy hi. Anfonwyd e-bost at CBS Conwy i ofyn iddyn nhw am ddarparu paent ar gyfer hyn ac mae grŵp o gynghorwyr a staff y Cyngor Tref yn fodlon gwirfoddoli i'w peintio'n barod at yr haf. At hyn, mae cynllun i gyflwyno cais i Dŵr Anafon am orsaf glanhau'r traeth. Soniodd y Clerc am gyfarfod gyda swyddog Cadwch Gymru'n Daclus a ddywedodd bod y gorsafoedd yn effeithiol mewn rhai mannau ond nid mewn mannau eraill – bydd yn rhaid ei roi ar braw fi weld os yw'n llwyddiannus. Rydym wedi derbyn stensiliau ar gyfer bag and bin it / bagio binio a marciau pawen i beintio'r palmentydd gyda phaent sialc. Bu hyn yn llwyddiannus mewn mannau eraill. Mae Llanfairfechan yn Hwb Codi Sbwriel erbyn hyn ac felly rydym wedi derbyn cais i gyflwyno adborth ar gyfer rhaglen ffôn er mwyn cofnodi'r gwaith hyd yma. Caiff y ddolen ei hanfon er mwyn inni allu ymchwilio i hyn.

Gan fod Llanfairfechan yn ardal Hwb Codi Sbwriel erbyn hyn, mae yna fagiau coch yn y neuadd ar gyfer unigolion sy'n codi ysbwriel ac fe fydd glanhawyr strydoedd CBSC yn eu casglu.

Penderfynwyd derbyn a nodi

8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer Swydd Wag Ward Lafan Mae'r swydd wag hon ar gyfer y ward yn gyfetholedig erbyn hyn gan nad oes unrhyw un o'r preswylwyr wedi galw am etholiad. Roedd pum preswilydd oedd â diddordeb wedi cysylltu gyda'r Cyngor Tref fel ymateb i'r hysbysiad cychwynnol ac mae'r gwaith papur cyfethol wedi'i gyflwyno a'i anfon yn uniongyrchol at y rheiny sydd â diddordeb. Rydym yn gofyn i'r ymgeiswyr gyflwyno'u CVs a'u llythyrau cais erbyn Mai'r 5^{ed} ac rydym yn gobeithio y bydd penderfyniad wedi'i wneud yng nghyfarfod y Cyngor Tref ar Fehefin y 7^{fed}. **Penderfynwyd derbyn a nodi**

9. Derbyn gwybodaeth am y gweithgareddau Coroni yn Llanfairfechan a phrosiect ffenestri Coronau'r Cyngor Tref

Mae'r coronau wedi'u danfon i Bant y Rhedyn i'w haddurno a bydd y plant yn derbyn bisged goffaol Sweet Snowdonia gydag arfbais y Cyngor Tref ar un ochr a'r goron goroni ar yr ochr arall. Dydy'r Cyngor Tref ddim yn cynnal digwyddiad – ni dderbyniwyd llawer iawn o gefnogaeth yn dilyn y pŵl piniwn ar Facebook ac felly dyna pam y penderfynwyd cyflwyno'r bisgedi i'r plant. Fe fydd Clwb Pêl-droed Llanfairfechan yn cynnal digwyddiad sylweddol ar y dydd Sul gan eu bod yn ailgydio yn Ras Hwyaidd Llanfairfechan a bydd Cynghorydd Tref yn rhyddhau'r hwyaid. Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Clwb Pêl-droed am eu gwaith er lles y gymuned – mae pobl o bob oedran ynghlwm â'r gwaith ac mae'n gadarnhaol dros ben ar gyfer Llanfairfechan. **Penderfynwyd derbyn a nodi**

10. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo crynodebau gweithredol o wahanol gyfarfodydd Mae cynllun i ailgydio yn yr hysbysiadau ar Facebook gyda phwyntiau bwledi am wahanol gyfarfodydd. Caiff y cofnodion eu cyflwyno 7 diwrnod ar ôl y cyfarfod, ond maen nhw'n drylwyr a byddai crynodeb yn fodd i fwy o bobl fanteisio ar yr wybodaeth. Cytunwyd y byddai hyn yn syniad da a'r grŵp cyfryngau cymdeithasol i fynd rhagddi gyda hyn. **Penderfynwyd derbyn a nodi**

11. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer prynu'r fainc Bydd y Clerc yn anfon y gost a'r wybodaeth ynghylch lliwiau ar e-bost, ond fe gytunwyd ar hyn mewn egwyddor.



Penderfynwyd derbyn a nodi

12. Trafod Cynllun Cymunedol Kickstarter a dosbarthu'r cynllun

Derbyniwyd y diweddaraf gan y grŵp sef eu bod yn ymchwilio oes modd uno Darganfod Llanfairfechan a'r Bartneriaeth Cynllunio Cymunedol. Soniwyd bod angen mabwysiadu'r cynllun cyn mynd ati i'w weithredu'n ffurfiol. Clerc i gydweithio gyda'r grŵp i drefnu dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf a bwrw iddi gyda'r prosiect.

Penderfynwyd derbyn a nodi

13. Roedd yr eitem hon yn ailadrodd Eitem 5

14. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Ebrill y 26ain, 2023

Darllenwyd y taliadau gerbron yr ar aelodau gan fod y rhestr agenda yn anghywir.

Taliadau i'w cyflwyno
1. Kirsty Merrell Daily Trwydded TENS Mai £21.00
2. CBS Conwy Ffi Flynyddol ar gyfer Archwilio'r Meysydd Chwarae £541.18
3. British Gas Trydan y Maes Chwaraeon Aml-ddefnydd £23.28
4. View Creative Agency Bwrdd Panorama £2256.00 (Cyllid Carneddau)
5. CBS Conwy Sgipiau Cymunedol £480.00
6. CBS Conwy Sgipiau Cymunedol anfoneb wedi'i diwygio £528.00

I'w gadarnhau dros e-bost fel y cytunwyd

15. Trafod materion cynllunio

Dim materion

16. Derbyn gohebiaeth

1. Mae Swyddog Chwarae Conwy wedi atgyweirio'r fainc picnic eto yn rhad ac am ddim ac fe estynnwyd diolch am hyn. Clerc i e-bostio llythyr o ddiolch ffurfiol.
2. Adnewyddu polisi yswiriant Zurich – cytunwyd i'w adnewyddu.
3. Plac er cof am Gŵn – mynegwyd pryderon ynghylch y nifer o geisiadau byddwn ni'n eu derbyn pe byddwn ni'n caniatáu hyn. Awgrymwyd y gellir neilltuo lle yng Ngardd Ffordd yr Orsaf er mwyn i breswylwyr allu prynu planhigyn bwytdwy er cof am eu hanifeiliaid anwes.
4. Deiseb gan breswyllydd i greu croesfan ger y Co-op – Mae 121 o bobl wedi llofnodi'r ddeiseb. Mynegwyd pryderon ynghylch y syniad oherwydd y nifer o gyffyrdd sydd yn yr ardal. Mae'r mater wedi'i gyfeirio at Gyngor Conwy ac fe wnaethon nhw ei wrthod i ddechrau. Cytunwyd y byddai'r Cyngor Tref yn ail-ystyried y sefyllfa yn dilyn y newidiadau i'r cyfyngder cyflymder ym mis Medi. Clerc i'w ychwanegu at yr agenda ym mis Hydref

Penderfynwyd derbyn a nodi

17. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

1. Cyng Preben Vangberg a Cyfeillion Llyfrgell Llanfairfechan – achoswyd problemau yn sgil y llyfrgell yn y llyfrgell. Roedd dryswch ynghylch lleoliad y pibellau, a pha stop-dapiau sy'n cyflenwi pa ardal. Mae'r fflat yn achosi problem – mae'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn anhysbys. Mae angen atgyweirio'r cafnau bargod ar y

fflat ac mae'n rhaid i Gyngor Conwy fynd i'r afael â'r mater hwn. Fe ddywedodd Cyngor Conwy nad ydy'r prynwr yn dymuno prynu mwyach ond fe awgrymwyd hefyd fod Conwy wedi oedi'r broses. Mae'r grŵp yn ymchwilio i silffoedd llyfrau symudol.

2. Grŵp Gefeillio Trefi – bydd dros 40 o ymwelwyr yn ymweld â Llanfairfechan ym mis Mai ac mae prinder lletywyr o hyd ar gyfer 1 x unigolyn a grŵp teulu sy'n chwilio am 2 x ystafell sengl. Byddan nhw'n cyrraedd ar y 18^{fed} ac yn dychwelyd ar yr 20^{fed}. Mae'r teuluoedd sy'n cynnig llety i'r ymwelwyr wrthi'n derbyn gwersi Ffrangeg ac mae mwy o gyfarfodydd cynllunio wedi'u cynllunio.
3. Cyfarfod ynghylch prosiect ffilm newydd posibl yn Llanfairfechan – mae ond megis cychwyn felly fe fydd rhagor o wybodaeth yn y man
4. Cyfarfod Gwasanaethau Cynaliadwy – mae cyfarfod cyntaf y gweithgor wedi'i gynnal a gwnaed cynnydd da tuag at lunio holiadur preswylwyr er mwyn derbyn eu barn ynghylch cyfraniadau ariannol gan y Cyngor Tref tuag at wasanaethau CBS Conwy
5. Eryri di-blastig – Mae'r Swyddog Datblygu'n awyddus i fwrw golwg ar hyn yn Llanfairfechan fel Porth i Eryri.
6. Cyfarfod Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru – ymgynghoriad cyn adolygu'r gwasanaeth. Bydd yr ymgynghoriad yn cychwyn ym mis Gorffennaf. Bydd y gwasanaeth yn newid gan nad oes modd iddyn nhw recriwtio diffoddwyr tân rhan amser yn sgil newidiadau demograffig o ran pobl ddim yn gweithio'n agos at eu cartrefi. Bydd yr ymgynghoriad yn gofyn i'r ymatebwyr am eu barn ynghylch atebion posibl i fynd i'r afael â hyn.
7. Pwll Padlo CBSC – Soniodd y Cynghorydd Sir bod mwy o wybodaeth i ddilyn am 10.30yh ac mae'r safbwynt wedi newid ers y datganiad cyntaf.

18. Derbyn canmoliaethau a phryderon brys

1. **Maes parcio Pandy** – llawer o gerbydau wedi'u gadael yn achosi trafferthion. Bydd y Cynghorydd Sir yn mynd ar drywydd yr adran gyfreithiol ynghylch y brydles gan na allwn ni wneud ryw lawer nes ein bod yn meddiannu'r maes parcio ac yn gosod cyfyngiad ar gyfer preswylwyr yn unig.
2. **Maes parcio Ffordd yr Orsaf** – mae'r trelar gwyn sydd wedi'i adael yno'n perthyn i breswlydd mwy na thebyg.
3. **Drych ar Parc Crescent** – soniwyd eto na fyddai Cyngor Conwy yn cytuno i osod y drych.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:00yh

Bydd y Cyfarfod Nesaf yn Gyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Llanfairfechan ar ddydd Mercher, Mehefin yr 17^{eg} 2023

Enghraifft o'r cyfarfod diwethaf:

Roedd ein cyfarfod diwethaf ar nos Fercher, Ebrill y 5ed. Dyma grynodedb o'r pynciau a drafodwyd a'r wybodaeth a dderbyniwyd:

1. Mae Neuadd Pendalar yn ffurfio pwyllgor newydd ac maen nhw'n chwilio am Ysgrifennydd newydd. Gallai CVSC weithredu fel ymddiriedolwr dros dro yn ystod y broses recriwtio.
2. Mae trawstiau cydbwyso a ffensys newydd wedi'u gosod yng Ngerddi Fictoria. Mae'r maes chwarae yn fwy diogel i blant a theuluoedd o ganlyniad.
3. Mae'r twll yn y Maes Chwarae Aml-ddefnydd (MUGA) wedi'i atgyweirio, felly mae'r cyrtiau wedi'u hail-agor yn barod ar gyfer y Pasg.
4. Bydd cyfarfod safle ar Ffordd y Felin er mwyn asesu'r tyllau y mae'r preswylwyr wedi rhoi gwybod amdany'n nhw. Mae CBSC wedi ymchwilio'r tyllau eisoes ac maen nhw wedi dweud na fyddan nhw'n gweithredu yn eu cylch hyd yn hyn.
5. Mae'r Gymdeithas Gefeillio Trefi wedi cymryd yr awenau dros gynnal a chadw Llys Petanque yn barod ar gyfer yr ymweliad o Pleumeluc ym mis Mai.
6. Mae gweithgor wedi'i sefydlu i drafod a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer adolygiad strategol o ddarpariaeth gwasanaethau CBSC yn Llanfairfechan.
7. Derbyniodd Cylch Meithrin Llanfairfechan grant i brynu tywod ar gyfer pwll tywod mawr newydd y mae modd i blant sefyll ynddo.
8. Soniwyd bod prinder Llywodraethwyr Rhieni / Athrawon yn Ysgol Pant Y Rhedyn ar hyn o bryd ac fe ddylai unrhyw un sydd â diddordeb sefyll fel Llywodraethwr gysylltu gyda'r ysgol.
9. Caiff prosiect celf ei lansio yn Llanfairfechan a Phenmaenmawr yn y Farchnad Grefftau nesaf. Mae Manon Hughes yn awyddus i gydweithio gyda grwpiau yn y dref.
10. Mae'r Cyngor Tref wedi cytuno i gydweithio gyda STAND i drefnu archwiliad hygyrchedd ar gyfer y meysydd chwarae yn Llanfairfechan.
11. Mynegwyd pryderon am y rheolau newydd ynghylch adnabyddiaeth mewn gorsafoedd ethol. Awgrymwyd cynnal sesiwn i gefnogi pobl i gofrestru ar gyfer pleidlais drwy'r post.
12. Mae gan 3 pherson ddiddordeb yn swydd wag Ward Lafan – mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar Ebrill y 18fed.
13. Bydd y Cyngor Tref yn darparu coronau i'w haddurno ar gyfer y plant yn barod at y coroni. Bydd modd iddyn nhw gyflwyno'u coronau yn gyfnewid am fisged coroni wedi'u pobi gan fecws lleol.

Eitem 11 Mainc picnic hygyrch



Eitem 16 Gohebiaeth:

1. E-bost ymddiswyddiad gan y Cyng Cllr Claire Hughes yn sgil newid mewn amgylchiadau personol
2. E-bost gan swyddog chwarae CBSC, David Dudley i sôn ei fod wedi atgyweirio'r bwrdd picnic yn rhad ac am ddim i'r Cyngor Tref
3. E-bost gan Zurich ynghylch adnewyddu'r polisi
4. E-bost gan breswlydd yn gofyn a oes modd iddyn nhw gael plac er cof am eu ci ar un o'r meinciau.
5. E-bost gan breswlydd yn gofyn am gefnogaeth ar gyfer croesfan y tu allan i'r Co-op

